# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth a Thechnoleg

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

18.30, dydd Mawrth 5 Tachwedd 2013, Ystafell Gynadledda 21, Tŷ Hywel

**COFNODION**

**Yn bresennol:** David Rees AC (Cadeirydd); Simon Thomas AC, Keith Davies AC. Julie James AC, Jenny Rathbone AC, ac 16 aelod allanol.

**Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys Wendy Sadler, Cyfarwyddwr Science Made Simple, a ymunodd â'r Grŵp heno.

**Rheolau newydd ynghylch lobïo a grwpiau trawsbleidiol**

Rhoes y Cadeirydd grynodeb o'r rheolau newydd.

**Ethol Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth a Thechnoleg**

Etholwyd David Rees AC.

**Ethol tri is-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth a Thechnoleg**

Eluned Parrot AC, Nick Ramsay AC a Simon Thomas AC a gafodd eu hethol yn is-gadeiryddion.

**Ethol ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth a Thechnoleg**

Cafodd Leigh Jeffes, o Gymdeithas Frenhinol Cemeg, ei ethol yn ysgrifennydd i'r grŵp.

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Eluned Parrott AC, Nick Ramsay AC a Dr Geertje van Keulen.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2013**

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**Materion yn codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Gwyddoniaeth a'r Cynulliad 2013**

Cyflwynodd Leigh Jeffes adroddiad byr ar y digwyddiad llwyddiannus hwn a gynhaliwyd ar 21 Mai. Daeth cynifer ag yr oedd lle iddynt i'r digwyddiad ac i'r arddangosfa, a thraddodwyd cyfres o gyflwyniadau ardderchog ar y thema: Arloesedd fel Sbardun Twf yn Economi Cymru. Diolchodd i'r ACau a noddodd y digwyddiad, ac i'r siaradwyr a'r sefydliadau a gymerodd ran.

**Pynciau ar gyfer cyfarfodydd yn 2014**

Gofynnwyd i'r Aelodau anfon syniadau at Leigh ar gyfer cyfarfodydd y flwyddyn nesaf.
Bydd yr Athro Chris McGuigan yn siarad ar y gwyddorau bywyd ym mis Mawrth.

**Adolygiad Grŵp Llywio TGCh Llywodraeth Cymru o'r Cwricwlwm TGCh - Dr Tom Crick**

Cyhoeddodd y Grŵp Llywio ei Adroddiad ym mis Hydref. Rhoes Dr Tom Crick, sy'n aelod o'r Grŵp Llywio, grynodeb o'r prif ganfyddiadau, a 12 argymhelliad clir.

**Cyflwyniad gan yr Athro Manu Haddad: "University-Industry Partnerships and their benefits"**

Traddododd yr Athro Haddad ei gyflwyniad, ac atebodd gwestiynau.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Haddad. Bydd sleidiau o'r cyflwyniad ar gael.

**Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

**Dyddiadau'r Cyfarfodydd yn 2014**

Dydd Mawrth 18 Mawrth
Dydd Mawrth 8 Gorffennaf
Dydd Mawrth 4 Tachwedd

**Diwedd y cyfarfod**
Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 19.45.